

SL(6)260 – Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau hyn") yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 ("Deddf 2020").

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu Cynllun ar gyfer rhoi grantiau a gwneud benthyciadau gan Weinidogion Cymru. Mae paragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf 2020 yn pennu'r dibenion y caniateir rhoi cymorth ariannol ar eu cyfer.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol cyffredinol. Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer sefydlu'r Cynllun. Mae Rhan 3 yn cyfansoddi'r Cynllun ac yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau a gwneud benthyciadau. Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau neu wneud benthyciadau mewn cysylltiad â'r gweithgareddau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi ar ba sail y caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau a gwneud benthyciadau ac maent yn gosod gweithdrefn ar gyfer gwneud ceisiadau. Cyn talu grant neu fenthyciad rhaid bod Gweinidogion Cymru yn fodlon ar y gwariant yr aed iddo, neu yr eir iddo, ac y cydymffurfir ag unrhyw amodau cymeradwyo

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu bod talu grant neu fenthyciad yn amodol ar y ceisydd yn cadw cofnodion perthnasol ac yn hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau. Gall Gweinidogion Cymru amrywio, atal dros dro a dirymu'r penderfyniad i gymeradwyo cais am grant neu fenthyciad a chânt, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu grant neu fenthyciad os na chaiff rhai amodau penodol eu bodloni (gydag unrhyw symiau sydd heb eu had-dalu yn cael eu hadennill yn y pen draw fel dyled sifil).

Caniateir cyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â phenderfyniadau'n ymwneud â cheisiadau am grantiau a benthyciadau a hysbysiadau am amrywiadau, ataliadau dros dro a dirymiadau. Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am eu penderfyniad yn dilyn sylwadau o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaeth orfodi i swyddogion gorfodi morol a benodir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("Deddf 2009"). Mae a wnelo'r swyddogaeth â gorfodi unrhyw droseddau posibl a gyflawnir mewn perthynas â chais am grant neu fenthyciad o dan y cynllun (er enghraifft, trosedd o dan Ddeddf Twyll 2006). Caiff pwerau gorfodi perthnasol ar gyfer swyddogion gorfodi morol o dan Ran 8 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 eu cymhwyso hefyd at ddibenion y swyddogaeth hon.



Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn y diffiniad o "swyddog gorfodi morol", mae gwahaniaeth amlwg rhwng testunau'r ddwy iaith gan fod y testun Saesneg yn cyfeirio at "section 235(1)(a)", tra bod y testun Cymraeg yn cyfeirio at "adran 235(1)".

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn y fersiwn Saesneg, nodir bod gan y diffiniad o "marine enforcement officer" yn rheoliad 14(3) yr un ystyr ag adran 235(1)(a) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Fodd bynnag, mae adran 235(1)(a) yn diffinio'r term drwy gyfeirio at, "any person appointed as such an officer by the MMO". Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi, "These Regulations confer an enforcement function on marine enforcement officers appointed by the Welsh Ministers under the Marine and Coastal Access Act 2009 (c. 23)." Fel y cyfryw, ymddengys mai'r cyfeiriad cywir yn rheoliad 14(3) yw adran 235(1)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sy'n diffinio'r term drwy gyfeirio at, "any person appointed as such an officer by the Welsh Ministers".

Fodd bynnag, ynghyd â phwynt adrodd 1, nid yw'n glir ai bwriad y polisi oedd dal yr holl swyddogion gorfodi morol fel y'u diffinnir gan adran 235(1), neu'n syml y rhai a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 235(1)(b). Os mai'r bwriad oedd dal y cyfan, yna mae'r testun Cymraeg y cyfeirir ato ym mhwynt adrodd 1 yn gywir a dylid cywiro'r testun Saesneg yn unol â hynny.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn nhestun Saesneg rheoliad 14(3), dylai'r termau diffiniedig gael eu dilyn gan y diffiniadau Cymraeg cyfatebol mewn cromfachau ac italg gan mai rhestr o ddiffiniadau ydyw, ac i'r gwrthwyneb yn y testun Cymraeg (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 4.15(6)).

4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol



Yn ail baragraff y rhagymadrodd, mae'n anghywir dyfynnu'r ddarpariaeth sy'n nodi'r weithdrefn y dylai'r Rheoliadau hyn ei dilyn, "a pharagraff 2(8) o Atodlen 6 iddi" (gweler Statutory Instrument Practice 3.11.22). Fel arfer, dim ond y darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw amodau gael eu cyflawni a ddyfynnir yn y paragraffau ychwanegol hyn o'r rhagymadrodd, megis y gofyniad i osod ar ffurf drafft gerbron y Senedd, sef, "Yn unol ag adran 51(4)(c) o" (gweler Statutory Instrument Practice 3.11.28).

At hynny, dim ond y ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i offeryn gael ei osod ar ffurf drafft a ddyfynnir fel arfer yn y prif nodyn ar frig y dudalen mewn offerynnau statudol cadarnhaol, ac felly bydd yn cyfateb i'r rhai a ddyfynnir ym mharagraff cyflawni amodau'r rhagymadrodd. Ond yn y Rheoliadau hyn, mae'r darpariaethau a ddyfynnir yn y prif nodyn yn wahanol i'r rhai a ddyfynnir yn ail baragraff y rhagymadrodd, oherwydd dyfynnu'n ddiangen y ddarpariaeth sydd ond yn nodi'r weithdrefn yn y rhagymadrodd.

5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 7(1)(b) a rheoliad 9, yn y testun Cymraeg, mae'r gair "determine(d)" wedi'i gyfieithu fel "a bennir" yn y ddau le y mae'n codi. Yn hyn o beth, mae'n wir bod "a bennir" yn ymadrodd y gellir ei ddefnyddio i gyfleu ystyr "determine(d)" yn nhestun Cymraeg deddfwriaeth ddwyieithog, yn dibynnu ar y cyd-destun. Fodd bynnag, mae "a bennir" eisoes wedi'i ddiffinio i olygu "specified" yn rheoliad 2. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y diffiniad o "specified"/"a bennir" i hysbysu'r darllynydd y gall y term ddwyn ystyr gwahanol mewn unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Rheoliadau hyn (cyfeirir at "achosion neu eithriadau penodol") (gweler Drafftio Deddfau i Gymru 5.3(2)). Nid oes gair gwahanol ychwaith fel "a benderfynir" wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg a allai fod wedi gwahaniaethu rhwng "determine(d)" a "specified". Felly, gall darllynydd y testun Cymraeg gael ei gamarwain fod "a bennir" yn cyfeirio at y term diffiniedig "specified" yn hytrach na "determine(d)" yn rheoliad 7(1)(b) a rheoliad 9.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn datgan na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol oherwydd:

"Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei lunio ar gyfer yr offeryn hwn oherwydd nid ystyrir ei fod yn newid polisi yn sylweddol. Yn sgil ymadael â'r UE, nid yw'r ddeddfwriaeth a oedd yn gweinyddu cymorth ariannol yn unol â Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn weithredadwy mwyach. Mae'r offeryn hwn yn galluogi darparu cymorth cyffelyb y tu allan i'r UE. Felly mae unrhyw ddiwygiadau ymarferol i'r



polisi yn deillio'n bennaf o'r newid mewn cyd-destun cyfansoddiadol a deddfwriaethol, ac fe'u gwneir er mwyn gwella'r broses o ddarparu cymorth ariannol.

A:

"Gan mai'r bwriad yw sicrhau bod y cynllun a gaiff ei greu gan yr offeryn hwn yn hyblyg, byddai unrhyw asesiad penodol o gostau neu fuddiannau, neu effeithiau'r costau neu'r buddiannau hynny, yn destun dyfalu yn unig ac nid yn rhesymol nac yn seiliedig ar dystiolaeth."

Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro bod y Cynllun a grëir gan y Rheoliadau hyn "yn sicrhau cryn barhad â chynlluniau cyllido blaenorol ond mae'n cynnig mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y caiff y cynllun ei reoli yn y tymor hwy (y tu hwnt i fframwaith rheoleiddio'r UE)", tra'n galluogi "Gweinidogion Cymru i barhau i gyllido gweithgareddau penodol er mwyn buddsoddi yn y sector morol, y sector pysgodfeydd a'r sector dyframaethu yng Nghymru a darparu cymorth ariannol er mwyn datblygu'r Nodau Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015."

Mae paragraff 3.2 o god asesiad effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth ("y Cod") yn nodi eithriadau amrywiol i gynnal asesiad effaith rheoleiddiol, a'r unig un y gellir ei ystyried yn berthnasol yw:

"Lle y mae diwygiadau ffeithiol yn cael eu gwneud i ddiweddar is-ddeddfwriaeth ac nad ydynt yn newid y polisi mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol".

Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau hyn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig gyda'i gilydd yn awgrymu bod y Cynllun newydd yn golygu mwy na diwygiadau arferol neu ffeithiol, ac nid yw'n glir a yw unrhyw un o'r eithriadau eraill yn gymwys fel arall. At hynny, o gofio'r dâl bosibl a godir ar y Gronfa Gyfunol, a'r ffaith bod cymharydd parod yn y Cynllun Cronfa Pysgodfeydd Morwrol Ewrop blaenorol o ran y niferoedd tebygol, nid yw'n glir pam nad oedd yn bosibl cynhyrchu rhagolwg o gost debygol y Cynllun.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa eithriad o dan y Cod sy'n gymwys i'r penderfyniad i beidio â llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

7. Rheol Sefydlog 21.3(i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath

Nodir bod y Cynllun o dan y Rheoliadau hyn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru a bydd yn codi tâl ar y Gronfa Gyfunol.

8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd



Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn a nodir y canlynol o'r Memorandwm Esboniadol yn hyn o beth:

"Roedd ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd a gynhaliwyd rhwng 1 Mai 2019 a 21 Awst 2019 yn cynnwys cwestiynau penodol ynghylch trefniadau cyllido ar ôl ymadael â'r UE. Cyhoeddwyd [crynodedb o'r ymatebion](#) ar 14 Medi 2020."

A:

"Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid ym maes Polisi Cyllido i ymgysylltu â'r sector, llywio penderfyniadau gwariant a gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 i 6.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

